

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF**

**GWŶS I GYFARFOD**

**P J Lucas**

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ffôn: (01443) 424099 – Mrs Z.Maisey

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 25 Mehefin 2014 am 5.00 p.m.**

**AGENDA**

**Tudalennau**

**DATGANIAD BUDDIANT**

- 1 Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor
  1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
  2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2 CYHOEDDIADAU**

**3 COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn rhai cywir.

- |   |         |
|---|---------|
| (i) 26 Mawrth 2014                                      | 1 – 11  |
| (ii) 21 Mai 2014 – Cyfarfod Blynyddol                   | 13 – 16 |
| (iii) 28 Mai 2014 – Cyfarfod Eithriadol                 | 17 – 18 |
| (iv) 28 Mai 2014 – Cyfarfod Blynyddol wedi'i ailgynnull | 19 – 32 |

**4 LLYWODRAETHU AGORED:**

**5 DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

**6 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

**Gan Mr.K.Thomas, Llwynypïa, i'r Aelod o'r Cabinet ar Faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol (Mrs) E.Hanagan):**

"A fydd darpariaeth Feithrin a darpariaeth cyn-oed Meithrin yn cael eu hail-gyflwyno i'r un lefel ag yr oedden nhw cyn yr adolygiad barnwrol ac heb fod yn gyfyngedig i'r hen niferoedd ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion sydd wedi'u hen ddyddio erbyn hyn?"

**7 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR**

**(1) Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L.G.Walker i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Faint mae'r Awdurdod hwn wedi talu mewn costau cyfreithiol allanol yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer cyngor cyfreithiol ar yr holl faterion?"

**(2) Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Powell i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor a Materion Corfforaethol (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber)**

"Yng ngoleuni adroddiad diweddar ynglŷn â'r Cyngor yn gwerthu'r gofrestr etholiadol lawn, a wnaiff yr Aelod o'r Cabinet amlinellu i holl Gynghorwyr y cyfrifoldebau rheoli llinell mewn perthynas â pharatoi a gwerthu cofrestrau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT?"

**(3) Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Powell i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad i Aelodau ar y

penderyniad diweddar bod y cynnig i dorri addysg feithrin yn anghyfreithlon a pha gamau y mae'r adain lywodraethol yn bwriadu eu cymryd nesaf?"


(4) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Powell i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor a Materion Corfforaethol (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber)**

"Allai'r Aelod o'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb esbonio pam mae gweithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT wedi'i gynyddu o ychydig dros 12000 o weithwyr ym mis Gorffennaf 2011 i ryw fymryn dros 13000 o weithwyr ym mis Hydref 2013?"

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

- |           |   |         |
|-----------|---|---------|
| <b>8</b>  | <b>Gwobr Arfer Dda ac Arloesedd ar gyfer Datblygu a Chefnogi Aelodau</b>  |         |
|           | Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a Chyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol | 33 – 36 |
| <b>9</b>  | <b>Cynllun Corfforaethol 2014/15 Arfaethedig y Cyngor</b>   |         |
|           | Trafod adroddiad y Prifweithredwr   | 37–171  |
| <b>10</b> | <b>Cynllunio Gwasanaethau yn y Tymor Canolig - yr wybodaeth ddiweddaraf<br/>Cyllideb Refeniw y Cyngor 2014/15</b>       |         |
|           | Trafod adroddiad y Cabinet  | 173-177 |
| <b>11</b> | <b>Ariannu Ysgolion trwy Fenthycia Darbodus (Prudential Borrowing)</b>  |         |
|           | Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol  | 179-181 |
| <b>12</b> | <b>Polisi Rhoddion a Lletygarwch</b>  |         |
|           | Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol   | 183-196 |

- 13 Enwebiadau ar gyfer Rhyddfraint y Fwrdeistref Sirol**  
Trafod adroddiad y Prifweithredwr 197-199
- 14 Aelodaeth o Gist Gymunedol Rhondda Cynon Taf**  
Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau  
Cyfreithiol a Llywodraethol 201-202
- 15 Calendr Diwygiedig o Gyfarfodydd – Blwyddyn  
2014/2015**  
Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau  
Cyfreithiol a Llywodraethol 203-217
- 16** Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn  
faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a  
Llywodraethol**

**At: Pob aelod o'r Cyngor**

**18 Mehefin 2014**